

# Sut alla' i ddod i mewn?

*“Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyt, oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd ni all weld teyrnas Dduw.” (adn. 3)*

## Beth am ddarllen Ioan 3:1–15 ac yna myfyrio

Rwy'n teimlo bod yn rhaid imi wneud un peth cyn inni dynnu tua'r terfyn, sef gwahodd y rheiny nad yw yn 'nabod Iesu Grist i ddod yn rhan o'i stori ef. Mae *Pob Dydd Gyda Iesu* yn cael ei ddarllen mewn llawer o lefydd ar draws y byd lle mae 'na bobl sydd â diddordeb mewn pethau Cristnogol, ond sydd heb ymddiried eu hunain i Iesu Grist eto. Heddiw rydw i am roi gwahoddiad i'r rheiny ohonoch chi sydd heb fod yn rhan hyd yma o stori iachawdwriaeth Duw i ddod yn rhan ohoni. Ac felly, er mwyn y rheiny nad ydynyt yn ei adnabod ef yn bersonol, rwy'n gosod y cwestiwn hwn: Sut ydw i'n dod i berthynas efo Duw ac yn dod yn rhan o'i epig dragwyddol ef?

Rwyt ti'n dod i berthynas efo Duw trwy ei Fab Iesu trwy gael, fel mae'r Beibl yn ei roi, dy “eni o'r newydd”. Fe bregethais i gyfres o bregethau ar y testun “Mae'n rhaid eich geni chi o'r newydd” (adn. 7) unwaith, dros gyfres o chwe nos Sul. Gofynnodd rhywun imi pam fy mod i'n cymryd yr un testun dros chwe nos Sul yn olynol. Atebais innau: “Oherwydd mae'n rhaid eich geni chi o'r newydd.” Mae sôn am yr angen i gael ein geni o'r newydd drwy'r Testament Newydd. Rydym ni'n rhannu pobl yn ôl eu hil, eu dosbarth, eu rhyw, eu cenedl, eu cyfoeth a'u tlodi, eu haddysg a'u diffyg addysg, ond rhannodd Iesu pob dyn a dynes yn ddau ddsbarth yn unig: y rhai wedi eu geni unwaith a'r rhai wedi eu geni ddwywaith.

Os wyt ti wedi troi at Iesu Grist, os cefaist ti dy eni o'r newydd, yna rwyt ti i mewn yn y deyrnas. Os na chefaist ti dy eni o'r newydd rwy'n dy wahodd nawr i agor dy galon i Dduw a'i Fab ef Iesu Grist. Dywed y weddi yma ac fe fyddi di'n derbyn yr enedigaeth newydd fel mae niferoedd dirifedi wedi ei derbyn ym mhob oes. Fe gei di dy eni o'r newydd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 6:37–40; 10:7–11

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw'r holl addewidion sy'n cael eu gwneud yn Ioan 6 ar dy gyfer di?
2. Beth oedd y pris a dalodd Iesu er mwyn i ti gael bywyd yn ei holl gyflawnder?

## Gweddi

O Dad Nefol, rydw i eisiau bod yn rhan o dy stori di. Rydw i'n dod atat ti nawr er mwyn cael fy ngeni o'r newydd. Rydw i'n ildio popeth i ti – fy mywyd cyfan, fy nghalon – fy mhopath. Derbyn fi a gwna fi'n blentyn i ti. Yn enw Iesu yr ydw i'n gweddio. Amen.